CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN PAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS 7.30 y.h. NOS LUN 6ed HYDREF 2025.

1. CROESO

Croesawyd y Cadeirydd Cynghorydd Glena Humphrey pawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL

Cynghorion Glena HUMPHREY, Gwawr THOMAS, Irwedd GRIFFITHS, Goronwy R. WILLIAMS, D. Gwyn JONES, Gwenda DAVIES, John EVANS, Hefin WILLIAMS, a'r Clerc – Mel JONES.

3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorion Gethin OWEN a Ifor G. LLOYD

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Roedd dataganiad o ddiddordeb gan Cynghorydd Gwyn Jones ynglyn a cais cynllunio 0/52785 yn enw ei fab. Arwyddwyd y ffurflen priodol gan Cynghorydd Jones.

5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Medi 2025 (Cynnig – Cynghorydd Goronwy Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd Gwyn Jones-)

6. MATERION YN CODI

Wedi i Cynghorydd Bryn Jones ymddiswyddo yn y cyfarfod diwethaf ar ol trafodaeth roedd cytundeb i hysbysu y swydd wag. Roedd penderfyniad i'r Clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch i Bryn ar rhan y Cyngor ac hefyd rhoid gwadd iddo ymuno a'r Cynghorion am bryd o fwyd i ddangos diolch iddo.

7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod ddod i ben 20fed Medi 2025.

Dod i ben 20fed Medi 2025

Cyfrif Cymunedol	= £6,869.24(Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn	= DIM
Arian Allan	= £400.00 (Cyflog Clerc)
	= £194.14 (Cyflog y Clerc)
	= £500.00 (Grant Mynwent Trofarth)
	= £93.98 (Anfoneb BT - Wifi)

CYFANSWM – £1,188.12

Cyfrif Cymunedol = £5,681.12 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfrif Busnes	= £4,071.02 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan	= DIM
Arian i Mewn	= £16.21 (Llog at 04/09/2025)

Cyfrif Busnes = £4,104.58 (Cludwyd Ymlaen)

Cyfanswm **= £9,785.70 (Cludwyd ymlaen**

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiad banc fel a restir uwchben.

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae dau afoneb gan BT wedi cael ei dderbyn ers y cyfarfod diwethaf

1. Dyddiad 5/9/25 - MO33 HR - £93.98 – Mae yr afoneb yma wedi ei dalu ar y 19/9/25. Ni chafodd hwn ei drafod yn y cyfarfod diwethaf achos cafodd ei dderbyn ar 5/9/25. Pawb yn hapus hefo hwn wedi cael ei dalu.
2. Dyddiad 5/10/95 -MO34 LN - £95.98. Pawb yn hapus i'r afoneb gael ei dalu.

Mae y Clerc wedi cysylltu a Defib Supplies a cost 10 of fatris i'r diffibrilwyr yw £66.00 hefo VAT. Pawb yn fodlon i archebu 20 o fatris am £122.00

Mae cost torchion am Sul y Coffa yn £50.00 am ddau – un i Betws yn Rhos ag un i Llanelian. Pawb yn fodlon i'r Clerc archebu nhw gan Ken Baker a talu'r £50.00

8. GOHEBIAETH

Derbynwyd

1. Mrs Margaret Morris o Betws yn Rhos wedi cysylltu hefo Cynghorydd John Evans ynglyn a cyfamod ar dai yn ei stryd. Roedd y Clerc wedi siarad hefo Mrs Morris mis diwethaf ag wedi ei diweddarau mae cyfrilodeb perchennog y tai oedd cymeryd camau cyfreithiol a dim Cyngor y Sir nag y Cyngor Cymunedol. Roedd Cynghorydd Evans wedi cadarnhau hyn gyda Mrs Morris.

2. E bost wedi ei dderbyn gan cwmni 'Paws on Paths' yn gofyn os oedd yn bosib defnyddio byrddau hysbysiadau y Cyngor i hysbysu ei busness nhw. Fe drafodwyd y cais ac mae y byrddau yn cael ei darparu i'w ddefnyddio gan y gymuned i rhannu gweithredau lleol, cyfarfodydd a digwyddiadau. Yn anffodus nid yw yn bosib defnyddio y byrddau i hysbysu busness. Mae cyfle i fusnesai ddefnyddio tudalennau FaceBook y pentrefi. Y Clerc i yrru Ebost i 'Paws on Paths' hefo eglurhad.
3. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

Anfonwyd

1. Lythyr wedi ei yrru i Mr Medwyn Lewis ynglyn a cyflwr gwael Ffordd Plas Helyg, Llysfaen i egluro fod 'matrix' gan y Cyngor Sir a bod rhestr o flaenoriaeth. Fydd dim pwrpas i gael cyfarfod.
2. Lythyr o ddiolch wedi ei yrru i Tudur a Christy Roberts am a fainc yn y Cae Chwarae
3. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
4. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

9. GRANTIAU

Ceisiadau i'r Cyngor.

1. Cais am grant wedi ei dderbyn gan Theatr Bara Caws. Fe ddarllenwyd y Clerc y llythyr. Wedi trafod y cais penderfynwyd yn anffodus na fydd grant yn cael ei dalu gan nad oedd yn elusen lleol ir ardal. Y Clerc i ysgrifennu i Theatr Bara Caws.
2. Cais am grant wedi ei dderbyn gan Urdd Gobaith Cymru Sir Gonwy. Fe ddarllenwyd y Clerc y llythyr. Wedi trafod y cais penderfynwyd yn anffodus na fydd grant yn cael ei dalu gan nad oedd gweithgareddau yn lleol ac hefyd mae y Cyngor yn cyfrannu i Eisteddfod yr Urdd pan fyddent yn lleol. Y Clerc i ysgrifennu i'r Urdd.

Ceisiadau gan y Cyngor

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52785 **Ymgeisydd: Gethin Jones**

Cynllun: Dymchwel yr ystafell haul bresennol i adeiladu ystafell gefn ar ôl troed tebyg. To gwyrdd proffil isel i leihau'r effaith ar yr adeilad presennol a'r ardal o'i amgylch. Adeiladu swyddfa a gweithdy yng nghefn y t? gyda chyswllt gwydr.

Safle: Ffrith Wen Llanrwst Road Bryn Y Maen Colwyn Bay LL28 5ES

Cyn trafod y cais yma fe adawodd Cynghorydd Gwyn Jones yr ystafell wedi datgan diddordeb yn y cais gan ei fab

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad. Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio.

Wedi gwneud y penderfyniad ymunodd Cynghorydd Gwyn Jones a'r cyfarfod

CAIS NEWYDD

Cyfeirnod: 0/52869 **Ymgeisydd**: **Mr a Mrs Andrew a Louise Macbeth**

Cynllun: Newidiadau mewnol arfaethedig ar y llawr gwaelod, gan gynnwys: Tynnu wal fewnol, gosod mynediad drws aer i'r seler, ailosod 2 simnai sy'n gweithio, adfer agoriad drws diangen a chau 2 agoriad o'r ystafell gemau i gegin y perchennog a'r cyntedd i'r ystafell fwyta. Newidiadau mewnol arfaethedig ar y llawr cyntaf, gan gynnwys: Gosod pared i greu mynediad i ystafell wely newydd y gellir ei gosod, gosod ystafell en-suite, tynnu rhan o'r

wal er mwyn hwyluso mynediad i'r ystafell gawod o ystafell wely newydd y staff. Newidiadau allanol arfaethedig, gan gynnwys: Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan (Caniatâd Adeilad Rhestredig)

Safle: Ffarm Country House Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AR

Fe edrychwyd ar y dogfennau cynllunio. Roedd gan y Cynghorion ddim gwrthwynebiad i'r cais. Roedd y Cyngor yn fodlon i'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad gan fod yn gofyn am ganiatad adeilad rhestredig a fydd y gwybodaeth priodol gan yr Adran Gynllunio. Y Clerc i yrru y gwybodaeth i'r Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52771 Ymgeisydd: Mr T Williams

Cynllun: Ehangu'r wyneb caled wrth y fynedfa. Adeiladu lloches cae â chladin pren / sied offer / storfa gyda chynhwysydd dur diogel a charafan. Nodir dylai'r garafan gael ei ddefnyddio fel lloches cae yn unig ac nid ar gyfer gweithgarwch preswyl neu dros nos.

Safle: Coed Ty Brith Abergele Road Betws Yn Rhos LL22 8AE

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52758 Ymgeisydd: Gwynfor Jones

Cynllun: Cwt amaethyddol newydd i gadw defaid ac wyn adeg wyna, ynghyd â lle i gadw lloi

Safle: Twnan Ucha Dolwen Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NN

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52738 **Ymgeisydd: Mr J. Rees**

Cynllun: Estyniad deulawr arfaethedig i ochr adeilad allanol sydd wedi cael ei drawsnewid yn flaenorol

Safle: Pant Idda Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EE

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

Cyfeirnod: 0/52713 **Ymgeisydd: Mrs A Wheway**

Cynllun: Disodli'r holl lifoleuadau ar y Lawnt Fowlio a'r Llecyn Gemau Amlddefnydd. Ar hyn o bryd mae'r goleuadau yn oleuadau sodiwm 1000 wat o amgylch y Lawnt Fowlio, mae un wedi methu ac un yn fflachio, felly credir y byddai'n fanteisiol disodli'r holl unedau gydag unedau LED watedd isel. Dim ond yr unedau ar ben y pyst presennol yr ydym yn cynnig eu newid. Cynhaliwyd arolwg o'r goleuadau gan "Tamlite", mae copïau ynghlwm.

Safle: Sports Pavilion Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AW

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

Cyfeirnod: 0/52714 **Ymgeisydd: Mr Max Jones**

Cynllun: Gogledd: Cais ôl-weithredol i newid defnydd tir a lleoliad cysylltiedig cynwysyddion storio (Defnydd B8) ynghyd â gwaith tirlunio

Safle: Tir Yn Bryn Rodyn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay Conwy

Wedi cael ei wrthod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52704 **Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt**

Cynllun: Gogledd: Lôn fferm i siediau amaethyddol a phorthwr gwair (Manylion Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw Amaethyddol)

Safle: Aelwyd Uchaf Peacful Mountain Farm Cil Llidart Road Betws yn Rhos Conwy LL22 8AG

Cymeradwyaeth ymalen llaw gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52687 **Ymgeisydd: Miss N Lutchman**

Cynllun: Cynnig dymchwel garej ac ystafell haul, adeiladu estyniad ar ochr y Gogledd a'r Dwyrain, adeiladu prif bortsh newydd, ffurfio ffenestri newydd ar ochr y Gogledd a'r Dwyrain a chau ffenestri/drws presennol y portsh i greu lle tân â simdde i roi stof goed.

Safle: Pren Gwyn Nentydd Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EF

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

Cyfeirnod: 0/52628 **Ymgeisydd: Mr and Mrs P & W Arundale**

Cynllun: Addasu adeiladau allan presennol i ddarparu llety domestig ychwanegol sy'n ategol at fwynhad yr annedd

Safle: Celynnen Llanelian Conwy LL29 6AT

Wedi cael ei gymeradwyo gan yr Adran Cynllunio

Cyfeirnod: 0/52584 **Ymgeisydd: Mr Max Jones**

Cynllun: Gogledd: Newid defnydd tir o gae amaethyddol i ardal ymarfer cwn (defnydd unigryw) ynghyd â gwaith cysylltiedig ar gyfer parcio a thirlunio

Safle: Tir ger Bryn Rodyn Old Colwyn Colwyn Bay Conwy LL29 8UU

Yn cael ei drafod gan yr Adran Gynllunio

11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae Archwiliad Cymru wedi gyrru e bost yn gofyn am y gwybodaeth canlynol.

1. Eisio copi o cynllun hyfforddi y Cyngor. Roedd y Clerc ddim yn ymwybodol os oedd cynllun hyfforddi. Y teimlad gan y Cynghorion oedd nad oedd cynllun. Y Clerc i edrych i mewn i'r mater a hefyd siarad hefo Tom Jones yr hen Glerc. Yn y trafodaeth roedd yn amlwg fod sawl Cynghorydd eithaf newydd heb gael hyfforddiant. Y Clerc i gael gwybodateh am hyfforddiant sydd ar gael.
2. Eisio copi o cymoid y cyfrif Banc. Mae y ddogfen gan y Clerc ac fydd yn rhannu hefo Archwiliad Cymru.
3. Wedi mewnbynnu 'do' ar gyfer cwestiwn 10 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddo fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Wedi edrych ar y ddogfen beth sydd yn cynwys y pwer camgymeriad oedd hyn ag yr ateb ddylliau fod yn 'Na'
   Y Clerc i yrru e bost i Archwiliad Cymru hefo diweddariad.

12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Cynghorydd Ifor Lloyd wedi ymddiheuro.

13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae y Clerc wedi derbyn amcangyfrif gan KOMPAN am yr offerau canlynol - pedwar twr hefo twnel a sleid a Springer lilies dwr. Y gost hefo ei gosod yw £30,524.61

Mae CVSC Conwy wedi rhoid manylion i'r Clerc am sefydliadau fedrith helpu hefo grant.

Gan fod yr offerau yn cael ei gosod ar dir Cyngor Sir Gonwy mae Mr David Dudley -Arolygydd Cae Chwaraeon- wedi diweddaru fydd y gwaith yn cael ei monitro gan y Cyngor. Mae Mr Dudley yn mynd I gael amcangyfrif gan cwmniau eraill a gyrru y gwybodaeth i'r Clerc. Mae Mr Dudley yn mynd i gysylltu hefo KOMPAN. Nid yw Mr Dudley wedi cael siawns i wneud y gwaith ond wedi gaddo ei wneud cyn cyntaf a phosib.

Mae yn bosibilrwydd fydd rhaid gofyn i'r Parc Solar am gymorth grant.

Mae y Cyngor Sir wedi gyrru gwybodaeth am grantiau i fynnu at £5,000 i ddatblygu chwarae yn y Sir. Y Clerc i gysylltu hefo'r adran briodol i gael ychwaneg o wybodaeth.

b. Diffibrilwyr.

Mae y diffibrilwyr mewn cyflwr da ac ar lein. Wedi cael ei profi gan y Clerc ar y 2/10/25

Mae y Clerc wedi cael awrdudod y Cyngor i archebu 20 o fatris newydd i'w cadw mewn stoc.

Mae y Clerc wedi cysylltu hefo Tomos Hughes ynglyn a siarad hefo cymunedau Llanelian a Betws yn Rhos yn fuan yn y nos a dim yn y prynhawn er mwyn cael mwy yn bresenol. Y Clerc yn disgwyl ateb gan Tomos Hughes.

c. Yr Hwb

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs wedi plannu blodau yn potiau yn pentref Betws ac wedi gwneud defnydd o'r potiau pren oedd ddim yn cael ei defnyddio.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Roedd Cynghorydd John Evans wedi diweddaru eisioes fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled.Fydd diweddariad ar gael pan fydd cynnydd yn y planniau.
Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi Pwyllgor yr Eglwys.

Ynglyn a toiledau Llanelian y Clerc wedi ddiweddaru Mr Dylan Llyr Roberts fod dim rhaid cael y gwaith chwiliadu achos fod adeilad newydd y Neuadd Cymunedol drws nesaf i'r Cyflusterau wedi cael chwiliadau. Yn ychwanegol roedd adeilad y toiledau wedi cael ei atgyweiro gan y Cyngor Sir.

Mae y Cadeirydd, Cynghorydd Glena Humphrey, ag y Clerc wedi danfon dogfennau adnadod i swyddfa y cyfreithwr.

Mae Mr Dylan Llyr Roberts wedi cychwyn swydd newydd ac mae cyfreithwr arall yn gwneud y gwaith.

Y Clerc wedi cael amcangyfrif gan Zurich. Fydd cost iswrant adeilad y toiledau yn £613.90 (fydd yn cynwys iswrant blynyddol y Cyngor) Pan fydd y les wedi ei gwbwlhau y Clerc i edrych am amcangyfrif arall i'w gymharu.

f. **Materion arall**

Tir ger Nant Uchaf, Betws yn Rhos. Cae yn cael ei ddefnyddio i gadw peiriantau trwm. Mae yr Adran Gynllunio yn ymwybodol ac fydd diweddariad mewn amser.

Mae angen ail blannu y goeden mwnci yn ymyl Pafilwn Chwaraeon, Betws yn Rhos. Mae y goeden o ffordd darparu parcio ychwanegol. Mae AJC Contractors yn mynd i ail blannu y goeden. Mae Cynghorydd Ifor Lloyd yn foldlon cysylltu hefo AJC Contractors. Nid yw'r goeden wedi cael ei ail plannu at hyn ond fe fydd yn cael ei ail plannu pan fydd y tywydd yn addas. Dim angen trafod y mater eto.

Cododd Cynghorydd Gwyn Jones bryderion am yr amser maith mae y ffordd o Willows at Ffrith Wen wedi cael ei chau gan y Cyngor Sir. Y Clerc i ysgrifennu i ERF am esboniad.

Cododd Cynghorydd Goronwy Williams y mater fod y ddwy giosg ffon – Betws yn Rhos a Dolwen- angen ei ail beintio. Mae ciosg Llanelian yn cael ei peintio gan gwirfoddolwyr o'r pentref. Y Clerc i wneud ymholiadau a cael amcangyfrif am wneud y gwaith.

Y Clerc wedi gyrru neges i ERF Sir Gonwy ar ol i Cynghorydd Irwedd Griffiths godi broblemau hefo cerbydau yn parcio yn perygl ar y ffordd rhwng Y Felin, Dolwen a Pen y Bryn ar y ffordd am Bryn Elian. Y Clerc wedi gyrru mwy o wybodaeth ynglyn a'r lleoliad.

Y Clerc wedi gyrru neges i ERF Sir Gonwy hefo pryderion ar ol damwain rhwng dwy van Bwrdd Dwr yn Ffordd Galch, Llanelian ac yn awgrymu fod arwydd Araf yn cael ei gosod cyn y trof lle mae mwy na un damwain wedi digwydd.

Y Clerc wedi ysgrifennu llythyr o ddiolch i Tudur a Christy Roberts o 34, Glan y Fedw, Betws yn Rhos am rhodd o fainc i'r Cae Chwarae yn y pentref.

Fe gafwyd trafodaeth am y goleuadau nadolig yn Betws yn Rhos. Y Clerc i gysylltu a Cyngor y Sir i osod y goleuadau y flwyddyn yma.

14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae y cais praesept am £18,000 wedi cael ei gytuno gan y Cyngor Sir. £6,000 wedi ei dalu i'r cyfrif banc ar 15/4/25, 14/8/25 a mis Rhagfyr 2025.

Mae dogfennau hefo'r gwybodaeth priodol am praesept 2025/2026 eisio bod hefo'r Cyngor Sir erbyn 16/1/2026. Fydd rhaid cael byr

wybodaeth yn y Cyfarfod nesaf ar y 3ydd Tachwedd 2025 a cael yr holl ddogfennau yn barod erbyn ein cyfarfod ar 5ed Ionawr 2026.

15. **FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**
Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny. Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

Dim diweddariad ynglyn a cynllun tyrbines gwynt a parc solar ar Fynydd Llanelian. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais.

16. **Y GADLAS**

Dim awgrymiad am erthygl.

17. **UNRHYW FATER ARALL**

Roedd y Clerc wedi trafod cinio nadolig yr henoed Betws yn Rhos hefo Mrs Aloma Wheway. Maent yn meddwl am gael y cinio yn y neuadd hefo'r bwyd yn cael ei paratoi gan gwmni allanol.Fydd llawer mwy yn medru ymuno. Roedd y Cyngor wedi rhoi grant o £450 yn 2024 am ginio yr henoed yn Llanelian a £218.87 am ginio yr henoed yn Betws. Roedd cytundeb i gefnogi y cinio yn Betws. Mae henoed Llanelian yn talu at y bwyd ac fuasai hyn yn syniad i henoed Betws. Y Clerc i ddiweddaru Aloma

Gan nad oedd materion eraill fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.05 yh.

CADEIRYDD …….. Glena Humphrey

CLERC…… Mel Jones

DYDDIAD: 3ydd Tachwedd 2025